1 Medi | September 2023

Annwyl Bennaeth,

Un o flaenoriaethau allweddol Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw sicrhau bod pob plentyn yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu brechiadau plentyndod a drefnwyd a bod rhieni a gwarcheidwaid yn cael eu cefnogi i wirio statws brechlyn eu plentyn a chael mynediad at unrhyw frechlynnau sydd eu hangen.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech rannu'r negeseuon canlynol gyda rhieni trwy eich tudalennau cyfryngau cymdeithasol, gwefan a/neu ap ysgol cyn gynted â phosibl.

Byddwn yn darparu cyfathrebu i rieni mewn perthynas â'r rhaglen frechu rhag y ffliw sydd ar ddod yn ystod yr wythnosau nesaf.

Os oes gennych unrhyw adborth yr hoffech i ni ei ystyried ar gyfer pecynnau gwybodaeth yn y dyfodol, cysylltwch ag Alexandra Williams-Fry, Uwch Swyddog Cyfathrebu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, ar Alexandra.williams-fry@wales.nhs.uk

Cofion,

Dr Ardiana Gjini
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Dear Headteacher,

A key priority for Hywel Dda University Health Board is to ensure all children are up to date with their scheduled childhood vaccinations and that parents and guardians are supported to check their child's vaccine status and access any vaccines needed.

We'd be grateful if you could share the following messages with parents via your social media pages, website and/or school app at the earliest opportunity.

We will provide communication for parents in relation to the upcoming flu vaccination programme in the coming weeks.

If you have any feedback you would like us to consider for future information packs, please contact Alexandra Williams-Fry, Senior Communications Officer at Hywel Dda UHB, on Alexandra.williams-fry@wales.nhs.uk

Regards,

Dr Ardiana Gjini
Executive Director of Public Health
Hywel Dda University Health Board

## Copi Facebook / gwefan / ap ysgol / cylchlythyr

Wrth i ni ddechrau blwyddyn ysgol newydd, rydyn ni'n deall ei bod hi'n amser prysur i ni i gyd, ond mae'n bwysig bod ein rhestrau o bethau i'w gwneud yn cynnwys gwirio bod brechiadau ein plant yn gyfredol.

Mae ymchwil o bob rhan o'r byd yn dangos mai brechiadau yw un o'r ffyrdd gorau y gallwch chi helpu i amddiffyn eich hun, eich ffrindiau, a'ch teulu rhag clefydau a heintiau difrifol. Mae brechlynnau'n ddiogel ac yn effeithiol.

Oeddech chi'n gwybod bod mwy nag 16 o glefydau yng Nghymru y gallwn eich brechu chi a'ch teulu yn eu herbyn i helpu i'w hamddiffyn rhag mynd yn ddifrifol wael? Mae'r rhain yn amrywio o lid yr ymennydd i ganser ceg y groth.

Arferai clefydau fel difftheria a thetanws fod yn salwch cyffredin ond oherwydd brechiadau effeithiol mae'r rhain bellach yn brin yn y DU. Mae clefyd arall y gellir ei atal â brechlyn fel Polio wedi'i ddileu yn Ewrop, ond oherwydd cyfraddau brechu isel, mae risg fach y gallai ddod yn ôl i'r DU.

Rydym hefyd yn wynebu risg gynyddol o glefydau eraill sy'n bygwth bywyd, fel y frech goch a llid yr ymennydd ac mae hyn yn bryder. Dyma pam mae imiwneiddiadau plentyndod mor bwysig.
Os nad ydych yn siŵr a yw brechlynnau eich plentyn yn gyfredol, gall BIP Hywel Dda helpu. Ffoniwch 0300 303 8322 opsiwn 1 neu e-bostiwch ask.hdd@wales.nhs.uk

Mae brechlynnau'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae llawer o wybodaeth anghywir am frechlynnau felly defnyddiwch ffynonellau dibynadwy neu siaradwch â gweithiwr iechyd proffesiynol os oes gennych unrhyw gwestiynau. Mae fwy o wybodaeth ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru https://icc.gig.cymru/pynciau/imiwneiddio-a-brechlynnau/

## Copi Instagram

Mae'n amser prysur i bob un ohonom ond mae'n bwysig bod ein rhestr o bethau i'w gwneud yn cynnwys gwirio bod brechlynnau ein plant yn gyfredol wrth i ni symud ymlaen i'r flwyddyn ysgol newydd.

Arferai clefydau fel difftheria a thetanws fod yn salwch cyffredin ond oherwydd brechiadau effeithiol mae'r rhain bellach yn brin yn y DU. Mae clefyd arall y gellir ei atal â brechlyn fel Polio wedi'i ddileu yn Ewrop, ond oherwydd cyfraddau brechu isel, mae risg fach y gallai ddod yn ôl i'r DU.

Rydym hefyd yn wynebu risg gynyddol o glefydau eraill sy'n bygwth bywyd, fel y frech goch a llid yr ymennydd ac mae hyn yn bryder. Dyma pam mae imiwneiddiadau plentyndod mor bwysig.

Os nad ydych yn siŵr a yw brechlynnau eich plentyn yn gyfredol, gall BIP Hywel Dda helpu. Ffoniwch 0300 303 8322 opsiwn 1 neu e-bostiwch ask.hdd@wales.nhs.uk

Mae brechlynnau'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae llawer o wybodaeth anghywir am frechlynnau felly defnyddiwch ffynonellau dibynadwy neu siaradwch â gweithiwr iechyd proffesiynol os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Chwiliwch am 'Brechlynnau Iechyd Cyhoeddus Cymru' am fwy o wybodaeth.

## Copi Twitter

Brechu yw'r peth pwysicaf y gallwn ei wneud i amddiffyn plant rhag afiechyd. A yw brechiadau eich plentyn yn gyfredol wrth i ni ddechrau blwyddyn ysgol newydd? I wirio, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â @bihyweldda ar 0300 303 8322 op 1 neu ask.hdd@wales.nhs.uk

## Facebook / website / school app / newsletter copy

As we start a new school year, we understand that it is a busy time for us all, but it is important that our to-do lists include checking that our children's vaccinations are up to date.

Research from around the world shows that vaccinations are one of the best ways you can help to protect yourself, your friends, and family against serious diseases and infections. Vaccines are safe and effective.

Did you know there are more than 16 diseases in Wales that we can vaccinate you and your family against to help protect them from getting seriously ill? These range from meningitis to cervical cancer.

Diseases such as diphtheria and tetanus used to be common illnesses but due to effective vaccinations these are now rare in the UK. Another vaccine preventable disease such as Polio has been eliminated in Europe, but due to low vaccination rates, there is a small risk it could be brought back to the UK.

We are also experiencing an increased risk of other life-threatening diseases, such as measles and meningitis and this is a concern. This is why childhood immunisations are so important.

If you are unsure if your child's vaccines are up to date, Hywel Dda UHB can help. Call 0300 303 8322 option 1 or email ask.hdd@wales.nhs.uk

Vaccines are safe and effective. There is a lot of misinformation around vaccines so please use trusted sources or speak to a health professional if you have any questions. More information can be found on the Public Health Wales website https://phw.nhs.wales/vaccines

---------------------------------------------

## Instagram copy

It's a busy time for all of us but it's important our to do list includes checking that our children's vaccines are up to date as we head into the new school year.

Once common illnesses, such as diphtheria and tetanus, are now rare in the UK because of immunisation. Another vaccine preventable disease such as Polio has been eliminated in Europe, but due to low vaccination rates, there is a small risk it could be brought back to the UK.

We are also experiencing an increased risk of other life-threatening diseases, such as measles and meningitis and this is a concern. This is why childhood immunisations are so important.

If you are unsure if your child's vaccines are up to date, Hywel Dda UHB can help. Call 0300 303 8322 option 1 or email ask.hdd@wales.nhs.uk

Vaccines are safe and effective. There is a lot of misinformation around vaccines so please use trusted sources or speak to a health professional if you have any questions.

Search ‘Public Health Wales vaccines’ for more information.

----------------------------------------------

## Twitter copy

Vaccination is the most important thing we can do to protect children against ill health. Are your child’s vaccinations up to date as we head into a new school year? To check, or if you have any questions, contact @hywelddahb on 0300 303 8322 opt 1 or ask.hdd@wales.nhs.uk

Swyddfeydd Corfforaethol, Adeilad Ystwyth,
Hafan Derwen, Parc Dewi Sant, Heol Ffynnon Job,
Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 3BB

Corporate Offices, Ystwyth Building,
Hafan Derwen, St Davids Park, Job’s Well Road,
Carmarthen, Carmarthenshire, SA31 3BB

Cadeirydd /Chair
**Miss Maria Battle**

Prif Weithredwr/Chief Executive
**Mr Steve Moore**

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yw enw gweithredol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Hywel Dda
Hywel Dda University Health Board is the operational name of Hywel Dda University Local Health Board

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn amgylchedd di-fwg   Hywel Dda University Health Board operates a smoke free environment